**YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2014**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, John Griffith, Kenneth P Hughes, Victor Hughes, Raymond Jones, Richard O Jones, Nicola Roberts. |
| **WRTH LAW**: | Rheolydd Tîm Rheoli Datblygu (NJ)<br>Cynorthwy-ydd Cynllunio Rheoli Datblygu (GJ)<br>Uwch Beiriannydd, Strwythurau (Priffyrdd) (RT)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (AWJ)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Ann Griffith, W T Hughes. |
| **AELOD LLEOL**: | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Eitem 2) |

---

1. **22C40A – Cais llawn i ddymchwel yr annedd a'r garej bresennol, ynghyd â chodi annedd a garej yn eu lle, stablau, gosod gwaith trin carthion ac altro'r fynedfa i gerbydau yn Cae Maes Mawr, Llanddona**.

   Penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn ei gyfarfod ar 7 Mai 2014 i ymweld â'r safle.

   Eglurodd y Cynorthwy-ydd Cynllunio bod y cynnig yn un i ddymchwel yr eiddo presennol ac adeiladu annedd newydd, 1m yn is na'r annedd gyfredol, 2m yn fwy o ran uchder. Dangosodd y Swyddog i'r Aelodau gynllun i raddfa o'r annedd gyda'r tŷ presennol a'r datblygiad arfaethedig wedi ei gyfosod arno. Eglurodd fod y tŷ gwreiddiol yn mesur oddeutu 10.5m x 13.5m ar y cynllun ac y byddai'r datblygiad newydd oddeutu 10m yn hirach gyda garej ynghlwm wrth y tŷ.

   Dygodd Aelod Lleol, y Cynghorydd Lewis Davies, sylw at y fynedfa i'r safle a lleoliad llwybr cyhoeddus ger y fynedfa ac at garej a oedd ar y safle'n barod. Dygodd sylw hefyd at leoliad y llwybr arfordirol lle cafwyd tirlithriad yn ddiweddar.

   Yn ogystal, dywedodd y Cynghorydd Davies bod y safle wedi'i leoli yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

   Eglurodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygiad fod y cynnig yn un am dŷ 5 ystafell wely gyda chyfleusterau 'en suite' ym mhob un; 2 ystafell wely ar y llawr gwaelod a 3 ystafell wely ar y lefel uwch. Byddai ffryntiad y tŷ o garreg naturiol.

Edrychwyd ar y safle o bersbectif gwahanol ar y traeth.  Dangosodd y Cynghorydd Davies leoliad yr eiddo o'r safle hwn. Dangosodd hefyd leoliad y llwybr arfordirol o'r man hwn.

**2. 46C38S/ECON – Cais llawn i godi bwyty ar dir ger Sea Shanty House, Lôn St Ffraid, Trearddur**

Ymwelwyd â'r safle'n unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 7 Mai 2014.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu fod y cais yn un am gaffi a bwyty ar dir sydd yn rhannol ym mherchenogaeth y Cyngor.  Edrychodd yr Aelodau ar leoliad y safle arfaethedig ar y twyni tywod, wedi ei gau i ffwrdd o'r maes parcio cyfagos.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm y cafwyd nifer o wrthwynebiadau a llythyrau o gefnogaeth, y prif resymau am y gwrthwynebiadau oedd:-

- Ceir llifogydd yn rheolaidd yn yr ardal hon
- Pryder ynghylch colli llecynnau parcio

Edrychodd y Pwyllgor ar y safle arfaethedig o ran y llecynnau parcio sydd ar gael gan nodi hefyd fod dŵr yn sefyll yn y maes parcio o ganlyniad i'r glaw trwm yn ddiweddar.  Eglurodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu bod y sawl yr ymgynghorwyd â nhw wedi nodi'r safle fel un a fyddai'n gynefin addas ar gyfer madfallod a bod adroddiad ecolegol wedi cael ei gyflwyno gyda'r cais.  Roedd camau lliniaru arfaethedig yn golygu dal y madfallod yn yr ardal a'u symud i'r twyni tywod sydd gerllaw.

Cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm fod adroddiad ar ganlyniadau llifogydd wedi cael ei dderbyn a bod cynlluniau diwygiedig wedi cael eu cyflwyno o ganlyniad i godi lefel llawr gorffenedig yr adeilad i gwrdd â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dygodd Aelod Lleol ar gyfer yr ardal, y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, sylw at yr ardaloedd sy'n tueddu i ddioddef llifogydd ynghyd â'r safle ar gyfer 80 o dai gerllaw.

Cadarnhaodd yr Uwch Beiriannydd (Priffyrdd) y ceir llifogydd yn y maes parcio a'i fod wedi ei ddylunio fel gorlifdir.  Dangosodd i'r Aelodau ffotograffau o'r llifogydd diweddar ar y lôn ac yn y maes parcio.